

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Cadeirydd: Aelod S.Paddison

Is-gadeirydd: Aelod S.Pursey

Cynghorydd: D.Keogh, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams,
S.Renkes, M.Protheroe a/ac R.L.Taylor

Swyddogion yn bresennol: S.Ball, S.Jenkins, M.Shaw a/ac T.Davies

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

3. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

PENDERFYNWYD: Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

4. **CAIS RHIF P2014/0825 - FFERM WYNT FOEL TRAWSNANT**

Gwnaed cyflwyniad gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Gosod 11 o dyrbinau gwynt gydag uchafswm uchder o 145m i gynhyrchu hyd at 33 MW, ynghyd â datblygiad ategol gan gynnwys is-orsaf ac adeilad rheoli, ceblau trydan tanddaearol ar y safle, traciau mynediad carreg i'r safle, lleoedd caeëdig dros dro ar gyfer adeiladu, seiliau tyrbîn a phadiau craen dros dro. (Cais diwygiedig sy'n ceisio gostyngiad yn nifer y tyrbînau o 13 i 11, cynnydd yn yr uchder o 120m i 145m) ym Moel Trawsnant, Bryn, Port Talbot) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cais Rhif P2014/0825, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar gytundeb cyfreithiol Swyddog Adran 106, yn ogystal â'r amodau y manylir arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

CADEIRYDD